OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2013 Rhif 374 (Cy.46)**

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Cambria (Corffori) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Chwefror 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Mawrth 2013* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(a) a 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn yn unol ag adran 16A o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007(**3**).

Yn unol â hyn, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Cambria (Corffori) 2013 a daw i rym ar 26 Mawrth 2013.

### Corfforaeth Newydd

**2.** Ar 26 Mawrth 2013 mae corff corfforaethol o'r enw Coleg Cambria i'w sefydlu, at ddiben sefydlu a rhedeg, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, sefydliad addysgol o'r un enw.

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 16 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan adran 140(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) ac Atodlen 31 iddi; gan adran 111(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) a chan Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158). Diwygiwyd adran 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan baragraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30) a chan baragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 16(1)(a) a 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Diwygiwyd O.S. 2007/854 (Cy.78) gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101).

**Dyddiad gweithredu**

**3.** Y dyddiad gweithredu a bennir mewn perthynas â Choleg Cambria yw 1 Awst 2013, a bydd y gorfforaeth yn rhedeg y sefydliad addysgol Coleg Cambria o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Chwefror 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu corfforaeth addysg bellach a elwir "Coleg Cambria" o dan adran 16(1)(a) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("y Ddeddf") at ddiben rhedeg y sefydliad addysgol o'r un enw. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer pennu 1 Awst 2013 yn ddyddiad gweithredu at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf, sef y dyddiad y mae Coleg Cambria i redeg, o hynny ymlaen, y sefydliad addysgol o'r un enw.

Cyhoeddwyd drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn yn unol ag adran 16A o'r Ddeddf a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007.